Safon Gwasanaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ein nod:
Nod Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw gweithio mewn partneriaeth i daclo Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, datrys problemau lleol a gwella cymunedau.

Byddwn yn:
Delio gyda'ch cwyn yn brydlon

- Ymchwilio i adroddiadau o dorri amodau tenantiaeth
- Sicrhau fod aelod o'r Tîm Gwasanaethau Bro yn cysylltu â chi o fewn 1 diwrnod gwaith o dderbyn eich cwyn
- Cydnabod derbyn eich cwyn yn ffurfiol trwy lythyr o fewn 5 diwrnod Gwaith
- Ceisio eich cyfweld o fewn 5 diwrnod gwaith er mwyn cael manylion llawn eich cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallwn wneud hyn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn - yn ddibynnol ar natur y gwyn
- Eich cyfweld o fewn 3 diwrnod gwaith os yw eich cwyn yn ymwneud â throsedd casineb, trais yn y cartref neu ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol
- Darparu cyngor a chefnogaeth os byddwch mewn anghydfod â chymydog, a phan fydd yn briodol, cynnig i gymodi

Egluro beth y gallwn, ac na allwn ei wneud

- Trefnu i ymweld â chi i drafod materion ym mhreifatrwydd eich cartref, neu os yr hoffech, yn un o'n Swyddfeydd Ardal
- Eich cynghori beth y gallwn ni ei wneud i ymdrin â'r broblem, ac amlinellu beth na allwn ei wneud
- Gweithio gyda chi i gytuno ar gynllun gweithredu, yn amlinellu beth fydd angen ei wneud, a gan bwy
- Trin gwybodaeth a chwynion yn gyfrinachol yn ôl y galw
- Os yw'n briodol, gweithio gyda chi i ddatrys y broblem, gan egluro yn glir beth fydd yn digwydd ymhob cymal o'r achos
- Ymdrechu i gysylltu â'r bobl sydd wedi eu hadnabod i fod yn gyfrifol am yr ymddygiad gwrth gymdeithasol o fewn 10 diwrnod gwaith o gyfweld y person a wnaeth y gwyn
- Ystyried os yw gwasanaeth cymodi'n briodol os yw pawb yn gytûn

Gwneud yn siwr eich bod yn derbyn cefnogaeth

- Cynnig cefnogaeth i'r sawl sydd yn dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac i'r tystion neu eraill sy'n dioddef, trwy eich cyfeirio at Swyddog penodol fydd yn delio â'r achos, yn ogystal â threfnu ymweliadau gan ein Gwardeiniaid Cymunedol

- Mewn achosion sy'n cynnwys pobl fregus, boed hynny fel dioddefwyr neu fel y sawl sy'n gyfrifol am achosi'r ymddygiad gwrthgymdeithasol, byddwn yn ystyried cynnig cymorth arbennig, ee ble mae angen cymryd i ystyriaeth problemau iechyd meddwl
- Egluro'r drefn yn glir i dystion pan fydd achosion yn cael eu cyfeirio at weithredu cyfreithiol, ac yn y pen draw, i'r Llys
- Trefnu eich bod yn siarad gyda'r Tîm Cyfreithiol yn bersonol pan yn bosib
- Darparu taflenni dyddiadur i chi gofnodi unrhyw ddigwyddiad y gwyddoch amdano neu yr ydych yn dyst iddo, gan gynnig cymorth a chefnogaeth gyda'u cwblhau os oes angen. Bydd y wybodaeth yma o ddefnydd wrth i ni benderfynu pa gamau i'w cymryd ac fe allent gael eu defnyddio fel tystiolaeth os bydd achos yn mynd i'r Llys. Gellir trefnu dulliau gwahanol o gofnodi digwyddiadau, os oes anawsterau gyda chwblhau'r taflenni

Gweithio gydag eraill i geisio datrys y sefyllfa

- Cysylltu gydag asiantaethau a phartneriaid statudol eraill i rannu gwybodaeth fydd o gymorth i ni ddatrys y broblem. Gall y rhain gynnwys yr Heddlu, Cyngor Gwynedd, Tîm Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd a Theuluoedd neu Gymorth i Ferched.
- Defnyddio mesurau ataliol lle bydd hyn yn bosib, megis Rhybuddion Terfynol, Cytundebau Ymddygiad, neu gyfeirio pobl ifanc sydd yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrth gymdeithasol at wasanaethau ataliol
- Pan fydd pob ymdrech arall wedi methu, ystyried cymryd camau cyfreithiol yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn atal pobl sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol mewn cymunedau,

Pan nad ydym ni'n ei chael hi'n iawn

- Rydym yn anelu i wneud popeth yn gywir a chywiro ein camgymeriadau
- Os ydych yn anfodlon gyda'r gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn gallwch roi gwybod i ni tros y ffôn, trwy llythyr, e-bost neu yn wyneb yn wyneb yn un o'n swyddfeydd.

Adolygu'r Safon Gwasanaeth

- Byddwn yn adolygu'r safonau gwasanaeth yma 12 mis ar ôl eu sefydlu, ac wedi hynny bydd adolygiad pob 3 mlynedd